## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar ddydd Mercher 4ydd Medi 2002 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), Sophia Drew, E. C. Edwards, A.E. Fletcher-Williams, K.N. Hawkins, D.M. Holder, N. J. Hughes, N. Hugh-Jones, E.R. Jones, G. Jones, M. M. Jones (sylwedydd), P. Jones, R.E. Jones, R. J. R. Jones, A. Owens, J. A. Smith, D.A. Thomas, S. Thomas, K.E. Wells, C.H. Williams ac R.Ll. Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pen Swyddog Cynllunio a Swyddog Gorfodi, Pen Swyddog Cynllunio (De), Pen Swyddog Cynllunio (Gogledd) a'r Swyddog Gweinyddol (G. Butler).

### CYFLWYNWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr J. Butterfield, M. Ll. Davies, M. German, R. W. Hughes, S. Kerfoot-Davies, F. Shaw, K.P. Stevens.

**395. MATERION BRYS**

Dim

**396. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd eisoes) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a)* *cadarnhau argymhellion y Swyddogion fel a gynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd nawr a rhoi caniatâd cynllunio neu wrthod, fel y bo'r achos, fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal, 1991, Rheolau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, i'r datblygiadau a gynigiwyd gan y cynlluniau canlynol, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd yn yr atodlen a gyflwynwyd nawr:-*

(i) Caniatâd

| Cais Cynllunio | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2002/0597/Caniatâd Llawn | (Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol gan Gyngor Tref Dinbych a'r Pennaeth Priffyrdd.)<br>Dymchwel rhan o gyn gartref nyrsio i ganiatáu trosi'r gweddill yn un annedd, ac adeiladu chwe ty annedd gyda ffyrdd myn-ediad cysylltiedig yng Nghyn Gartref Nyrsio Wynne's Park, Brookhouse Road, Dinbych. |
| 02/2002/0730/Caniatâd Llawn | (Roedd S. Kent, Rheolwr Gwasanaethau Pirffyrdd yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau)<br>Cynllun lliniaru llifogydd arfaethedig yn cynnwys:-<br>(a) Gwyro ffos sy'n bodoli, adeiladu cobiau gwarchod llifogydd a chwlfertydd cysylltiedig<br>(b) Glanhau a lledaenu ffosydd draenio ar dir rhwng Eglwys St Mwrog, Llanfwrog a Phlas Y Ward, Rhewl, Rhuthun<br>**Yn ddarostyngedig i** amodau diwygiedig 7 & 8 |

Amod diwygiedig 7 - Ni chaniateir cychwyn ar y datblygiad nes ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol parthed manylion y cynlluniau ar gyfer lliniaru'r effaith ar fywyd gwyllt a'r dirwedd, a gwella nodweddion cynefin a ecolegol, gan gynnwys rheoli'r safle i gynnwys cadw, adnewyddu a rheoli gwrychoedd rhywogaeth-gyfoethog a llystyfiant ymyl dwr, plannu coed cynhenid, llystyfiant torlannau a chreu nodweddion ecolegol newydd megis coedlannau gwlyb neu welyau brwyn mewn mannau addas, ac amseriad y gwaith.
Amod diwygiedig 8 - ychwanegu ar y diwedd "…sianel ddraenio newydd, os bydd gweddillion o'r fath yn cael eu dadorchuddio a hysbysu Archaeolegydd y Sir ddim mwy na 24 awr ar ôl eu darganfod ".

| | |
|---|---|
| 03/2007/0756/Caniatâd Llawn | Trosi ac ymestyn hen adeiladau fferm i ffurfio pum uned breswyl a gosod tanc septig yn Fferm Bryn Dethol, Ffordd Caergybi, Llangollen.<br>(Mae'r argymhelliad yn ddarostyngedig i gwblhau Ymrwymiad Adran 106 yn gofyn am gwblhau gwaith adfer Ffermdy Bryn Dethol i safon lle gellir byw ynddo yn unol â Chaniatâd Adeilad Rhestredig 3/110/99/LB cyn i neb fyw yn unrhyw un o'r unedau a greir o ganlyniad i'r caniatâd hwn, a bydd tystysgrif penderfyniad ond yn cael ei ryddhau ar âl cwblhau'r Ymrwymiad.)<br>**Yn ddarostyngedig** i Amodau Diwygiedig 1 a 4 ac Amod Newydd 10<br>Amod Diwygiedig 1 - Dylid cychwyn ar y datblygiad a ganiateir trwy hyn cyn 24 Mai 2004.<br>RHESWM: I gyd-fynd gyda dyddiad olaf y caniatâd adeilad rhestredig ar Ffermdy Bryn Dethol.<br>Amod diwygiedig 4 - ychwanegu ar y diwedd "…gyda'r cynlluniau a gymeradwywyd, a bod unrhyw goed, prysgwydd ac ati sy'n marw neu'n dioddef afiechyd o fewn 5 mlynedd i'w plannu yn cael eu hadnewyddu gyda rhywogaethau tebyg yn y tymor plannu nesaf."<br>Amod Newydd 10 - Ni chaniateir cychwyn ar y datblygiad nes ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer cynllun i warchod Ffermdy Graddfa II* Bryn Dethol rhag dwr yn dod i mewn a bod cynllun o'r fath yn cael ei gwblhau yn unol â'r manylion a gyflwynwyd ddim hwyrach na thri mis ar ôl cychwyn y datblygiad.<br>RHESWM: Rhoddir y caniatâd er mwyn sicrhau cadw Ffermdy Bryn Dethol ac mae angen cymryd camau ar frys i sicrhau bod yr eiddo yn dal dwr cyn gwaith adfer. |
| 03/2002/0317/Caniatâd Llawn | (Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol gan:<br>Gyngor Tref Llangollen - "Roedd yr Aelodau yn gwrthwynebu'r cais hwn gan deimlo nad oedd y cynllun ar gyfer y cyntedd newydd yn cyd-fynd â'r adeilad sy'n bodoli a'r ardal o gwmpas".;<br>Swyddog Mynediad y Sir - Yn ystyried bod y datblygiad yn welliant positif yn unol â Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, yn darparu cyfleusterau nad ydynt ar gael ar hyn o bryd i bobl anabl, ac yn cynghori os na chynhwysir y rhain ar y cynllun nawr, y byddai'n rhaid eu hystyried erbyn mis Hydref 2004.<br>O ran manylion, hoffai weld y ramp yn gostwng i 1 mewn 15 i ganiatáu mynediad annibynnol ac yn awgrymu ymgynghori ar leoliad y toiled hygyrch yn yr adeilad. |

| | |
|---|---|
| | Parch. Jenny Arthurs 98 Pont Adan Crescent, Rhiwabon - amlinellu'r rhesymau y tu ôl i'r newidiadau arfaethedig i'r eglwys - sydd i wella cyfleusterau i deuluoedd ifanc gyda babanod a phlant bach, ac i fodloni'r gofynion sydd ar ddod ar gyfer mynediad i bobl anabl gdya chadeiriau olwyn, trwy gyfrwng ramp mynediad, mynediad croesawgar, a chyfleusterau toiled)<br>Darparu cyntedd mynediad newydd i'r eglwys yn Eglwys Fethodistaidd Saesneg Princess Street Llangollen. **Yn ddarostyngedig** i amod newydd 4 - bod graddfa'r ramp nid fel y mae ar y cynlluniau, ond yn 1 mewn 15 o leiaf.<br>RHESWM: I sicrhau bod y ramp yn caniatáu mynediad annibynnol. |
| 03/2002/0669/Caniatâd Llawn | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gan J F Davies, 11 Bridge Street, Llangollen (ail lythyr). Mae'r llythyr yn mynegi siom ynglyn â'r argymhelliad ac yn pwysleisio pryderon parthed effaith y ffens ar hawliau i oleuni, agosatrwydd i ffenestr gyfagos, maint y ffens a cholli golygfeydd dros Afon Dyfrdwy a'r mynyddoedd. Adnewyddu ffens terfyn yn 15 Bridge Street, Llangollen.<br>**Yn ddarostyngedig** i Amodau diwygiedig 2 a 3<br>Amod Diwygiedig 2 - Ni chaniateir cychwyn ar y datblygiad nes derbynnir cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol o ran lliw/gorffeniad y pyst metel, y paneli ffensio, y rendr ar y blocwaith, a dylid cadw'r rhain yn y lliwiau a gymeradwywyd oni chytunir yn wahanol yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod.<br>Amod diwygiedig 3 - Ni chaniateir cychwyn ar y datblygiad nes derbynnir cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol o ran manylion y mur/ffens lle mae'n cyffwrdd ffin Afon Dyfrdwy, a dylid cwblhau'r cynllun yn unol â'r manylion cymeradwy yn unig. |
| 06/2002/0832/Caniatâd Llawn | (Datganodd y Cynghorydd G Jones ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra ystyriwyd y mater.)<br>(Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gan Bennaeth Gwarchod y Cyhoedd.) Adeiladu offer graddio pren yn y Felin Lifio, Gwyddelwern, Corwen.<br>**Yn ddarostyngedig** i Amod Newydd 2.<br>Amod 2 - Ni chaniateir cychwyn ar y datblygiad nes bydd manylion swn yn dod o'r eiddo neu'r offer ac unrhyw fesurau i liniaru swn o'r fath sydd eu hangen mewn cysylltiad â'r cais hwn, wedi eu cyflwyno i a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. |
| 12/2002/0567/Amlinell | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gan Gyngor Cymuned Derwen. Datblygu tir i ddibenion preswyl ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau ar dir yn cyffinio Bronallt Clawddnewydd, Rhuthun.<br>**Yn ddarostyngedig** i Nodyn Newydd at yr Ymgeisydd:-<br>“Fe'ch cynghorir i drafod syniadau manwl ar gyfer datblygu'r safle gyda'r swyddog achos cyn cyflwyno unrhyw gais pellach, yn enwedig oherwydd na ystyrir bod y cynllun sgets a anfonwyd gyda'r cais amlinell yn dangos ffurf datblygiad derbyniol.” |
| 15/2002/0574/Caniatâd Llawn | Newid ac ymestyn to ty annedd i ffurffio lle byw ychwanegol yng ngwagle'r to yn 4 Maes Ial, Llanarmon-Yn-Ial, Yr Wyddgrug. |

| | |
|---|---|
| 17/2002/0511/Caniatâd Llawn | (Datganodd y Cynghorydd Don Holder ddiddordeb yn y cais a gadawodd y Siambr tra ystyriwyd y mater.)<br>Datblygu tir trwy adeiladu dau dy annedd a mynediad gysylltiedig i gerbydau ar Lain 3 Erw Las, Llandegla, Wrecsam.<br>(Dymunodd y Cynghorydd Sophia Drew nodi iddi bleidleisio yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.) |
| 17/2002/0629/Cymeradwyo<br><br>Materion Neilltuedig | Datblygu tir trwy adeiladu dau dy annedd ac adeiladu mynediad gysylltiedig i gerbydau (a gymeradwywyd dan gôd rhif. 17/286/99/PO).<br>Tir ger Afallon, Old Gate, Llandegla, Wrecsam. **Yn ddarostyngedig** i ddileu Amod 1.<br>(Dymunodd y Cynghorydd Sophia Drew nodi iddi bleidleisio yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.) |
| 24/2002/0647/Cymeradwyo Materion Neilltuedig | Manylion ty annedd ac adeiladu mynediad i gerbydau a cherddwyr (Caniatâd Cynllunio Amlinell a ganiatawyd dan rif: 24/2001/581/PO).<br>Tir ger Drovers Cottage, Rhewl, Rhuthun. |
| 40/2002/0382/Caniatâd Llawn | Adeiladu estyniad llofft llawr cyntaf ar yr ochr yn Tree Tops, Bryniau, Dyserth, Y Rhyl. |
| 43/2002/0231/Caniatâd Llawn | Adeiladu estyniad to goleddf dau lawr a thy gwydr yng nghefn ty annedd yn Aber Melyd, Ffordd Penrhwylfa, Prestatyn.<br>(Dymunodd y Cynghorydd Sophia Drew nodi iddi bleidleisio yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.) |
| 43/2002/0565/Caniatâd Llawn | (Caniatawyd cyn belled â na dderbynnir unrhyw gyflwyniadau pellach yn codi materion cynllunio nas trafodwyd yn yr adroddiad, erbyn 9fed Medi 2002)<br>Newid math y tai yn dai tref 3 llawr a chreu 4 llain ychwanegol yn Stâd Tower Gardens, Lleiniau 100-109, Anwyls, Victoria Road, Prestatyn. |
| 43/2002/0761/Amlinell | (Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gan y Pennaeth Priffyrdd )<br>Datblygu 0.09 ha o dir trwy adeiladu ty annedd ar wahân ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau (Cais amlinell) ar dir yn (rhan o ardd) 78 Melidan Road, Prestatyn.<br>**Yn ddarostyngedig** i Amod Diwygiedig 4 a Nodiadau newydd i'r Ygmeisydd<br>Amod Diwygiedig 4 - ychwanegu ar y diwedd "…bod y fynedfa a ganiateir trwy hyn wedi ei hadeiladu yn unol â manylion a gyflwynwyd i a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol".<br>Nodiadau at yr Ymgeisydd:-<br>1. Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd ategol sydd ynghlwm [1, 2, 4, 5 a 10 ].<br>2. Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N sydd ynghlwm (deddf Gwaith Ffordd a Stryd Newydd 1991).<br>3. Tynnir eich sylw at y nodiadau sydd ynghlwm yn delio gyda cheisiadadau am ganiatâd i adeiladu croesfan i gerbydau dros lwybr/ymyl ffordd dan Adran 184 Deddf Priffyrdd 1980.<br>4. Mae Babtie New Development Consultants yn cynghori nad oes carthffosydd dwr wyneb yn yr ardal. Am wybodaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | bellach cysylltwch gyda Babtie ar 01745 815815 neu ebost: babtie@bdenbigh.com.<br>(Dymunodd y Cynghorydd Sophia Drew nodi iddi bleidleisio yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ac ymataliodd y Cynghorydd Ken Wells rhag pleidleisio.) |
| | 45/2002/0526/Adran 73A (Parhau/Cadw) | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol<br>gan A & SD Smith, 104 Marsh Road, Y Rhyl. Cadw canolfan ffitio teiars a batris a defnydd B1/B8 yn yr adeilad dwyrieniol yn 117/119 Marsh Road, Y Rhyl.<br>**Yn ddarostyngedig** i Amodau Dwiygiedig 2, 4, 7 & 8.<br>2. Cyfyngir unrhyw brosesau diwydiannol, gan gynnwys cynnal a chadw a gwasanaethu cerbydau a thynnu a ffitio teiars a batris ac unrhyw gasglu teiars o'r safle i unrhyw bwrpas, i'r oriau a'r dyddiau canlynol: 07.30-18.00 Llun i Sadwrn ac nid o gwbl ar ddydd Sul, Gwyliau Banc na Gwyliau Cyhoeddus.<br>4. Ni ddylid cynnal, atgyweirio na gwasanaethu unrhyw gerbyd dros 3.5 tunnell ar y safle.<br>7. Dylid marcio'r mannau parcio a ddangosir ar y Darlun Rhif. GC/2175/CP1 yn unol â'r cynllun o fewn mis i ddyddiad y caniatâd hwn a'u cadw i'r pwrpas hwnnw bob amser.<br>8. Dylid sicrhau bod yr iard agored rhwng y ddau adeilad ar y safle a ddangosir ar Ddarlun Rhif. GC/2175/CP1 ar gael bob amser ar gyfer llwytho, dadlwytho a throi cerbydau sy'n ymweld â'r safle a dylid ei farcio i adlewyrchu hyn o fewn mis i ddyddiad y caniatâd hwn.<br>(Gofynnodd yr Aelodau am gael monitro'r safle yn ofalus i sicrhau cydymffurfio gyda'r amodau) |
| | 46/2002/0701/Amlinell | (Cyn belled â na dderbynnir unrhyw gyflwyniadau pellach yn codi mater cynllunio nas trafodwyd yn yr adroddiad, erbyn 10fed Medi 2002.)<br>Datblygu 0.25 ha o dir trwy adeiladu 6 ty annedd ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau (Cais Amlinell) ar Safle Graham/Grosvenor Garage, Westbourne Avenue, Y Rhyl. (Dymunodd y Cynghorwyr Sophia Drew, Neville Hugh Jones a Nancy Fletcher-Williams gael nodi iddynt bleidleisio yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.) |
| (ii) | Gwrthodiadau | |
| | <u>Rhif Cais.</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
| | 01/2002/0652/Adeilad Rhestredig | (Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gan y Cynghorydd G Kensler. )<br>Dymchwel adeilad wedi ei ddifrodi gan dân ym Mryn Parc, Park Street, Dinbych. Oherwydd y Rheswm Diwygiedig 1 a'r Nodyn at yr Ymgeisydd.<br>1. Ystyrir na wnaed achos cryf dros ddymchwel Bryn y Parc, adeilad Graddfa II*, gan nad yw'r adeilad wedi ei farchnata yn weithgar i brofi posibiliadau cadw'r adeilad ar gyfer ei ddefnyddio a gwerthu am bris sy'n adlewyrchu ei gyflwr; nid yw costau atgyweirio a dull cadw amgen wedi eu harchwilio; ni ystyriwyd pob ffynhonnell cymorth grant, ac nid oes cynigion ailddatblygu positif ar gyfer y safle, hyn oll yn groes i Gylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig, Cynllunio a'r Amgylchfyd Hanesyddol, Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth Adran 91, 92 Polisi Cynllunio Cymru, Mawrth 2002. |

| | |
|---|---|
| | Nodyn diwygiedig at yr Ymgeisydd: Fe'ch cynghorir bod dymchwel ty annedd yn gofyn am ganiatâd ar wahân i ganiatâd yr Awdurdod Cynllunio Lleol trwy gyfrwng Hysbysiad Dymchwel ffurfiol. |
| 05/2002/0359/Caniatâd Hysbysebu | Cadw arwydd hysbysebu goleuedig yn Crown Shop, Y Sgwâr, Corwen<br>Am y rheswm diwygiedig canlynol - Mae'r arwydd ffasgia gyda golau allanol, oherwydd ei faint, dyluniad, golwg a dull goleuo, yn ymddangos fel nodwedd annerbyniol ac nid yw'n gwarchod na gwella golwg na chymeriad Ardal Gadwraeth Corwen. Ystyrir bod yr arwydd a'r dull goleuo yn cael effaith niweidiol ar fwynderau gweledol yr Ardal Gadwraeth, ac mae'n groes i Bolisi CON 8 Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych ac Arweiniad Cynllunio Ategol cysylltiedig (Arweiniad Seiliedig ar Bwnc) Nodyn 17: Hysbysebion. |
| 43/2002/0101/Adran 73A (Parhau/Cadw) | Cadw ffryntiad siop newydd (cais ôl-weithredol) yn Elite, 153 Stryd Fawr, Prestatyn<br>Gwrthod oherwydd y diwygiad canlynol i reswm 1: ychwanegu at y dechrau "Mae cadw'r ffryntiad siop newydd UPVC, oherwydd ei ddyluniad, golwg a'r deunydd a ddefnyddir, yn ymddangos fel....". Etc.<br>(Ymataliodd y Cynghorydd Neville Hugh Jones rhag pleidleisio). |

(iii) Caniatâd Adeilad Rhestredig Cyfeirio i CADW

| Rhif Cais. | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2002/0598/Caniatâd Adeilad Rhestredig | Dymchwel rhan o gyn-gartref nyrsio i ganiatau trosi'r gweddill yn un ty annedd ac adeiladu chwe ty annedd gyda ffyrdd mynediad cysylltiedig yng nghyn-Gartref Nyrsio Wynne's Park, Brookhouse Road, Dinbych. **Yn ddarostyngedig** i Amodau Diwygiedig 3 & 5 -<br>3. Ni chaniateir cychwyn ar unrhyw waith ar yr adeilad rhestredig nes bydd contract ar gyfer ei ailwampio a'i adfer wedi ei gwblhau, a dylid cwblhau contract o'r fath ddim llai na blwyddyn ar ôl cychwyn y gwaith.<br>5. Ni chaniateir ymgymryd ag unrhyw waith ar yr adeilad nes bydd y deunyddiau i'w rhoddi ar y to a'r muriau allanol (gan gynnwys gwead a lliw rendr) wedi eu cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ac ni ddylid defnyddio unrhyw deunyddiau eraill. |
| 03/2001/0755/Adeilad Rhestredig | Trosi ac ymestyn hen adeiladau fferm i ffurfio pum uned bre swyl (adnewyddu caniatâd adeilad rhestredig blaenorol a ganiatawyd dan Gôd Rhif. 26/64/96/LB) yn Fferm Bryn Dethol, Ffordd Caergybi, Llangollen.<br>**Yn ddarostyngedig** i Amodau Diwygiedig 1 & 2(b) -<br>1. Dylid cychwyn ar y datblygiad a ganiateir trwy hyn cyn 24 Mai 2004. RHESWM: I gyd-fynd â dyddiad olaf caniatâd adeilad rhestredig ar Ffermdy Bryn Dethol.<br>2(b) Math a lliw'r llechi naturiol a'r teils crib i'w defnyddio ar yr holl adeiladau. |

(iv) Ymweliadau Safle

| Rhif Cais. | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 16/2002/0622/Cymeradwyo Materion Neilltuedig | Ar ôl ystyried 7 llythyr ychwanegol gan L M Edwards, 23 Tan y Bryn, Llanbedr D.C. Rhuthun, T & R Anderson 4 Tan y Bryn Llanbedr D.C. Rhuthun, Mr T E Arslanian 10 Tan y Bryn, Llanbedr D.C. Rhuthun, Mr N Williams 12 Tan y Bryn Llanbedr D.C. Rhuthun, W H Shapland Helm Crag 8 Tan y Bryn Llanbedr D.C. Rhuthun, J E V Madgwick & Mrs P L Madgwick Ty Pemberton 6 Tan y Bryn Llanbedr D.C. Rhuthun, Paul S Williams Trenalls Tan y Bryn Llanbedr D.C. Rhuthun.<br>Manylion ty annedd, modurdy a mynediad a gyflwynwyd yn unol â chaniatâd cynllunio rhif cyf. 16/2002/819/PO yn Llain 13 (Rhif.25) Tan y Bryn, Llanbedr, Dyffryn Clwyd, Rhuthun.<br>Cynigiwyd Ymweliad Safle gan y Cynghorydd Elwyn Edwards, am y rheswm canlynol: mae gwrthwynebiadau lleol sylweddol, ac mae angen ystyried yn ofalus materion lefelau a'r effaith ar eiddo cyffiniol (gan dalu sylw arbennig i Rif 27). |
| 47/2002/0228/Amlinell | Datblygu 0.091 ha o dir trwy adeiladu 1 ty annedd a gosod tanc septig newydd (Cais Amlinell) yn The Croft, Caerwys Road, Rhuallt, Llanelwy.<br>Cynigiwyd Ymweliad Safle gan y Cynghorydd R. Lloyd Williams am y rheswm canlynol: i ystyried effaith y datblygiad ar yr ardal<br>(Cynghorodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol yr Aelodau yr ystyriwyd nad oedd rhesymau cynllunio perthnasol i gyfiawnhau ymweliad safle). |
| 47/2002/0693/Caniatâd Llawn | (Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra ystyriwyd y mater.)<br>Newid defnydd tir i ffurfio estyniad i safle carafanau teithiol, gyda lle storio dros y gaeaf ym Maes Carafanau Penisa'r Mynydd, Ffordd Caerwys, Rhuallt, Llanelwy.<br>Cynigiwyd Ymweliad Safle gan y Cynghorydd R. Lloyd Williams am y rheswm canlynol: i ystyried maint y cynnig a'i effaith ar gefn gwlad |

(v) Gohirio am y Rheswm a Nodwyd

| Rhif Cais. | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 20/2002/0657/Amlinell | Datblygu tir i ddibenion preswyl yn yr Hen Swyddfa Bost (Cyn Heritage Studios), Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhuthun<br>Gohirio er mwyn gofyn am fanylion pellach ar y math o dy annedd i'w adeiladu. |
| 40/2002/0382/Caniatâd Llawn | Trosi 2 allandy yn 8 ty annedd a gosod offer newydd i drin carthffosiaeth. Adeiladu modurdy dwbl a bloc modurdai ym Mhen Y Ffrith, Terfyn, Bodelwyddan, Y Rhyl.<br>Gohirio i ganiatáu ail-ymgynghoriad ar gynlluniau diwygiedig, ac ymgynghori gydag eiddo gerllaw. |
| 47/2002/0514/Caniatâd Llawn | Adeiladu orendy newydd ac adeilad cyswllt ar yr ochr, a newid y teras, grisiau a llwybrau yn Bryn Bella, Tremerchion, Llanelwy.<br>Gohirio i ganiatáu i'r ymgeisydd ystyried y materion a godwyd. |

| | |
|---|---|
| 47/2002/0515/Adeilad Rhestredig | Adeiladu orendy newydd ac adeilad cyswllt ar yr ochr, newid y teras, grisiau a llwybrau yn Bryn Bella, Tremerchion, Llanelwy.<br>Gohirio i ganiatáu i'r ymgeisydd ystyried y materion a godwyd. |

**397. ADRODDIAD DRAFFT GWERTH GORAU Y COMISIWN ARCHWILIO - GWASANAETH CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio yn manylu argymhellion arolygwyr y Comisiwn Archwilio ac yn ymateb i'r argymhellion hynny.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) cydnabod ymatebion rhif 2 - 6, 8, 9 and 11 a*

*(b) argymell cymeradwyo ymatebion 1,7, a 10.*

Gofynnodd yr Aelodau ymhellach bod arweiniad ar lobïo Cynghorwyr yn cael ei ddiweddaru gyda thrafodaeth bellach ar y pwnc yn rhan o'r gweithdy Aelodau i'w gynnal ar 14 Hydref 2002.

**398. AROLWG 1 CÔD ARFERION GORAU**
**2 CYNLLUN DIRPRWYO**
**3 TREFNIADAU ERAILL**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio yn cynnig newidiadau i'r polisïau uchod.

***PENDERFYNWYD*** *CYMERADWYO'R newidiadau a argymhellwyd ac eithrio paragraff 8.3 yn delio gyda chynghori Aelodau o oblygiadau cost penderfyniadau gwrthnysig.*

*Awdurdod i'w roddi i Swyddogion wneud y newidiadau i'r polisïau gyda golwg ar gyflwyno'r adroddiad yn ymgorffori'r newidiadau i'r Cyngor Llawn er mwyn ei gadarnhau.*

**399. LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU TAN (CYMRU) 19 TELEGYFATHREBU AWST 2002**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio yn manylu newidiadau allweddol a materion newydd yn y ddogfen hon, sydd wedi ei diweddaru.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) Bod yr Aelodau yn cydnabod cyheoddiad TAN (W) 19 "Telegyfathrebu" 2002 a fydd yn disodli TAN (W) 19 "Telegyfathrebu" 1998 gan ddod i rym ar unwaith.*

*(b) Cydnabod yr holl faterion a nodir yn yr arweiniad, yn enwedig y materion newydd a'r newidiadau a grynhoir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

**400. MATERION GORFODI**

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| ENF/184/99/S | Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol gan y Cynghorydd G Kensler a G Hitman. Esgeuluster a fandaliaeth i Adeilad Rhestredig Graddfa II Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych.<br>*Penderfynwyd awdurdodi'r camau canlynol:*<br>(i) cymryd pa bynnag gamau a dybir sy'n angenrheidiol gan gynnwys cyflwyno Hysbysiad Gorfodi Adeilad Rhestredig a/neu rybudd atal yn erbyn y perchennog/unrhyw berson arall er mwyn:<br>(a) rhoi stop ar waith diawdurdod ar yr adeiladau ar y safle |

| | |
|---|---|
| | (b) gwella diogelwch y safle i rwystro mynediad heb awdurdod;<br>(c) adfer nodweddion coll o'r adeilad ac atgyweirio'r adeiladau i sicrhau na achosir unrhyw niwed strwythurol iddynt, ac i rwystro colled unrhyw nodweddion pellach oherwydd tywydd ac ati<br>(ii) Bod y Swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Aelodau yn ffurfiol mewn cyfarfod yn y dyfodol ar unrhyw gamau a gymerwyd yn erbyn perchnogion y safle, ynghyd ag unrhyw welliannau yn y sefyllfa ar y safle. |
| ENF/2002/0028 | Dodi drws a dwy ffenestr heb ganiatâd cynllunio yn 19 Broomhill Lane, Dinbych.<br>*Penderfynwyd awdurdodi'r camau canlynol*: (i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau bod y drws uPVC, fframiau a ffenestri heb awdurdod yn cael eu tynnu a'u disodli gan ffenestri pren traddodiadol a drws a ffrâm traddodiadol.<br>(ii) Cychwyn camau erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person neu'r personau i'r rhain y cyflwynir y Rhybudd Gorfodi neu Rybuddion eraill a gyflwynir, os methant â chydymffurfio gyda'r gofynion. |
| ENF/307/01/S | Arwydd ffasgia gyda golau allanol heb awdurdod yn Crown Shop, Y Sgwâr, Corwen.<br>*Pendefynwyd awdurdodi'r camau canlynol:*<br>(i) Cychwyn camau erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio, gan gynnwys Cyflwyno Rhybudd Ataliad os tybir bod angen hynny, i sicrhau bod yr arwydd a'r dull goleuo yn cael eu tynnu ymaith. |
| ENF/2002/0021 | Lleoli Cartref Symudol yng Nghornel Bach, Ffordd Dinbych Isaf, Llanelwy.<br>*Penderfynwyd awdurdodi'r camau canlynol:*<br>(i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau bod y cartref symudol yn cael ei symud oddi ar y tir.<br>(ii) Cychwyn camau cyfreithiol neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person neu'r personau i'r rhain y cyflwynir y rhybudd gorfodi neu rybudd arall os methant â chydymffurfio gyda'r gofynion. |
| ENF/2002/0017 | Ffryntiad siop uPVC heb awdurdod yn 153 Stryd Fawr, Prestatyn.<br>*Penderfynwyd awdurdodi'r camau canlynol*:<br>(i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau tynnu ymaith y ffryntiad siop.<br>(ii) Cychwyn camau cyfreithiol neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person neu'r personau i'r rhain y cyflwynir y rhybudd gorfodi neu rybudd arall os methant â chydymffurfio gyda'r gofynion. |
| ENF/2002/0033 | Gosod canopi ar lefel ffasgia ac arwyddion ffasgia yn Chester House, 32 Sussex Street, Y Rhyl.<br>*Penderfynwyd awdurdodi'r camau canlynol*<br>(i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau bod strwythur y canopi a'r arwydd ffasgia yn cael eu symud ymaith.<br>(ii) Cychwyn camau cyfreithiol neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person neu'r personau i'r rhain y cyflwynir y rhybudd gorfodi neu rybudd arall os methant â chydymffurfio gyda'r gofynion. |

**401.** **DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn am gymeradwyo ymweliadau safle yn deillio o Eitem Rhif 2 ar y Rhaglen, i'w gynnal ar ddydd Iau 12 Medi 2002 a hysbysu'r cyfarfod o aelodaeth bresennol y Panel Ymweliadau Safle.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau safle ar 12fed Medi 2002 (yn y prynhawn.)*

**402.** **RHESTR O GEISIADAU WEDI EU TRIN DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd eisoes) ar geisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo dan awdurdod dirprwyedig rhwng 6ed Gorffennaf 2002 a 9fed Awst 2002.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45 p.m.

*********